



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Cynllun Hybu Iaith Gymraeg SNAP Cymru 2021-2022

Cynnwys

2 Gair gan ein Prif Weithredwr

5 Cyflwyniad

7 Cefndir - Ein huchelgais a'n hymrwymiad

11 Gweithredu

13 Darparu gwasanaethau

14 Cynllun cynnydd

39 Cyfeirnodau



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Datblygwyd gyda chymorth

Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Developed with the support of the

Welsh Language Commissioner's Promotion Team

Ail rifyn Mehefin 2019 - dyddiad adolygu Ebrill 2022

Gair gan ein Prif Weithredwr

Rwy'n falch o gyflwyno Cynllun Hybu Iaith Gymraeg SNAP Cymru sy'n nodi ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau a gwybodaeth yn nwy iaith swyddogol Cymru.

Ein nod yw i sicrhau bod plant, bobl ifanc a rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol fel bod modd iddynt wneud penderfyniadau priodol a chytbwys. Rydyn ni am sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth priodol, dibeniadwy yn eu dewis iaith. Rydyn ni'n gwybod bod bron un rhan o bump o boblogaeth Cymru'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg. I lawer o bobl yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw. Nid mater o'r hyn sy'n well gan bobl yn unig yw'r opsiwn i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy hyderus yn mynegi eu hunain yn Gymraeg, yn teimlo'n fwy hyderus yn cyfathrebu eu hanghenion yn Gymraeg, a'u bod yn meddwl ac yn byw eu bywydau yn Gymraeg. Mae teimlo'ch bod yn gallu mynegi'ch hun a theimlo'n gyfforddus a hyderus yn cyfathrebu'n hollbwysig i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol.

Mae deddfwriaeth yn ategu'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Nid yn unig mae dyletswydd gyhoeddus arnon ni i gyfathrebu a darparu yn y ddwy iaith swyddogol yng Nghymru – ond rydyn ni'n credu bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hawl. Rydyn ni eisoes yn darparu nifer o wasanaethau rheng flaen yn ddwyieithog, megis drwy ein Swyddogion Teuluol, ond gallwn wneud llawer mwy i annog defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein hymrwymiad. Rydyn ni'n hyderus y byddwn, drwy'r cynllun hwn, yn gwella ein gwasanaethau, ein hymgyrchu a'n gweithgareddau cyfathrebu. Edrychwn ymlaen at hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac ateb anghenion ein partneriaid a'n buddiolwyr ledled Cymru. Diolch

Amanda Daniels

Amanda Daniels **Prif Swyddog Gweithredol**

Cyflwyniad

Mae SNAP Cymru yn dangos parch at y Gymraeg drwy ein holl weithgareddau ac yn cydnabod yr angen i ymateb yn briodol i anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn unol ag ysbryd y mesurau, er mwyn sefydlu hawliau a rhyddid i ddefnyddwyr y Gymraeg, ceisiwn gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ein holl waith gyda'r cyhoedd yng Nghymru, p'un a yw hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf SNAP Cymru ei gyhoeddi a dderbyn sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14 (1) y Ddeddf, ar y 6ed o Chwefror 2009. Daw'r cynllun diwygiedig hwn o anlyniad i gyd-destun cyfreithiol newidiol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac adolygiad o wasanaethau ac adnoddau dwyieithog SNAP Cymru. Mae hefyd wedi rhoi cyfle i SNAP Cymru adnewyddu ei ymrwymiad at y Gymraeg.

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i weithrediadau SNAP Cymru yng Nghymru, holl ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr. Mae galluogi'r unigolyn i ddefnyddio'i ddewis iaith yn fater o arfer dda, ac mae SNAP Cymru yn cydnabod y gall gwadu'r hawl iddo ddefnyddio'i ddewis iaith ei roi dan anfantais. Mae gan bob aelod o staff SNAP Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei weithredu cystal ag sy'n bosib. Mae gan y Prif Gyfarwyddwr Gweithredol y Cwmni a'r Tasglu sy'n llunio ac adolygu'r cynllun gyfrifoldeb i adolygu a gweithredu'r Cynllun, yn ogystal ag adolygu'r cynllun yn flynyddol ac adrodd ar ei gynnydd gerbron Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Ein huchelgais a'n hymrwymiad

Mae SNAP Cymru yn credu bod cynnig gwasanaethau yn iaith ddewisol cwsmer yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid da a chydaddoldeb cyfle mewn cenedl ddwyieithog. Mae gan un rhan o bump o boblogaeth Cymru sgiliau Cymraeg ac mae disgwyl i hyn dyfu. Mae'r awydd ymysg rhai siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau Cymraeg yn glir. Mae ymchwil a gynhaliwyd dros y ddau ddegawd diwethaf wedi canfod hyn yn gyson ac mae'r awydd hwn ar gynydd. Nid mater o'r hyn sy'n well gan bobl yn unig yw'r opsiwn i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain yn Gymraeg, yn teimlo'n fwy hyderus yn cyfathrebu eu hanghenion yn Gymraeg, yn meddwl ac yn byw eu bywydau yn Gymraeg. Mae teimlo'ch bod yn gallu mynegi eich hun a theimlo'n gyfforddus a hyderus i gyfathrebu gyda darparwr gwasanaeth yn hollbwysig. Tynnir sylw at bwysigrwydd cynnig gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain i blant a chanddynt anghenion arbennig, mewn adroddiad o'r enw 'Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd' a ysgrifennwyd gan Andrew Misell i Gyngor Defnyddwyr Cymru. Nododd yr awdur, wrth gyfeirio at bobl a chanddynt anableddau dysgu neu anghenion arbennig eraill :-

"Gellir dwysau'r anawsterau a wynebwr gan bobl yn y fath sefyllfa os oes rhaid iddynt gyfathrebu yn eu hail iaith. Mae cryn dipyn o dystiolaeth ar sail sefyllfaoedd sy'n nodi bod Cymry Cymraeg ag anableddau dysgu yn ymateb yn well i ysgogiad yn eu hiaith gyntaf" (t. 26 Misell 2000)

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Bydd SNAP Cymru yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy ei weithgareddau a'i wasanaethau a byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â ni i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn ceisio datblygu gwasanaethau sy'n ffocysu ar yr unigolyn, lle mae'r unigolyn hwnnw'n teimlo'n gyfforddus bob amser yn defnyddio Cymraeg neu Saesneg

Mae SNAP Cymru yn gwmni di-elw, ac rydym wedi bod ar flaen y gad wrth hyrwyddo gweithio mewn partneriaethau, gan roi gwybodaeth a chynghor ynghylch hawliau, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid sydd ynghlwm wrth gynllunio a chynnig gwasanaethau i blant a phobl ifanc a chanddynt anghenion addysgol arbennig (ewch i www.snapcymru.org am fanylion llawn am ein hystod o wasanaethau a'n gweithgarwch).

Mae gan y Cwmni Marc Ansawdd Arbennig y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer Cyngor Addysgol, a statws Buddsoddwyr Mewn Gwirfoddoli Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cwmni'n gweithredu'n rhanbarthol o'n pedair Swyddfa Ranbarthol ledled Cymru – yn Abertawe, Caerdydd, Caernarfon a Hengoed. Ceir swyddfeydd lleol yn Wrecsam, Nghastell Nedd, Llanelli a Llandrindod. Lleolir gwasanaethau canolog SNAP Cymru yn y Brif Swyddfa yng Nghaerdydd.

Mae SNAP Cymru yn egluro o fewn ein cynlluniau a'n polisiâu bod yr angen am gydraddoldeb o safbwynt Saesneg a'r Gymraeg yn hanfodol er mwyn cofleidio'r canrannau amrywiol o Gymry Cymraeg sy'n byw yn y cymunedau yr ydym ni'n gyfrifol am eu gwasanaethu.

Mae'r cynllun hwn, sydd wedi ei adolygu, yn cael ei drafod gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau, staff a gwirfoddolwyr drwy Dasglu Iaith Gymraeg a gyfarfu ar hyd y flwyddyn i fonitro a gwerthuso'r broses o gyflwyno ein hymrwymiad a'n gweithredoedd.

Y Cyd-destun cyfreithiol

Cafodd yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal ei sefydlu a'i chorffori yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn dilyn y Ddeddf, sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yna diddymwyd y Bwrdd ar 31 Mawrth 2012 o ganlyniad i gyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ers hynny, mae cyfrifoldeb y Bwrdd dros hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg wedi'i rannu rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Derbyniodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011 sy'n golygu:

- bod statws swyddogol wedi'i sefydlu ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru
- sefydlwyd yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg a fframwaith deddfwriaethol newydd
- gwnaed darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg
- crëwyd darpariaeth am safonau'n ymwneud â'r Gymraeg
- sefydlwyd y ddarpariaeth i ymchwilio ynghylch ymyrryd i'r rhyddid i ddefnydr Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ac mae ganddi gyfrifoldeb dros orfodi dyletswyddau cyfreithiol drwy gyfrwng "safonau". Mae modd gorfodi'r safonau hyn. Caiff y drefn gyfreithiol sy'n ategu'r safonau ei datblygu dros y blynyddoedd nesaf. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau yn y trydydd sectori gydymffurfio â'r safonau, ac yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ofyn i sefydliad gydymffurfio â safon. Gallai Gweinidogion Cymru enwi sefydliadau yn y trydydd sector i'w hychwanegu at restr y sefydliadau y mae gofyn iddyn nhw gydymffurfio. Bwriedir i "safonau" ddisodli cynlluniau Iaith Gymraeg.

Wrth gomisiynu gwasanaethau neu ddyrannu grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector, bydd angen I sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau (fel Llywodraeth Cymru) sicrhau bod rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r Gymraeg fel amod o gytundeb. Gyda hyn mewn golwg, mae SNAP Cymru wedi penderfynu mabwysiadu cynllun iaith priodol o'i wirfodd, gan ddilyn fformat y safonau yn unol â chynghor tîm y Comisiynydd, er mwyn dangos ein hymrwymiad i'r egwyddor o driniaeth gyfartal.

Mae darparu cydraddoldeb cyfle wrth wraidd ein hagenda wrth wahaniaethu a'n polisiau Adnoddau Dynol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth ynghylch dewis iaith. Bydd SNAP Cymru yn creu amgylchedd sy'n annog cwsmeriaid i gyrchu gwasanaethau a deunyddiau yn eu dewis iaith drwy:

- Ddefnyddio'r ddwy iaith yn ffurfiol ac yn gyhoeddus
- Darparu gwasanaethau o'r un safon yn Gymraeg a Saesneg
- Marchnata a hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog
- Cynnig dewis iaith o'r cychwyn cyntaf
- Bydd staff yn ymwybodol o sut i ymdrin â chwsmeriaid sydd am gyrchu gwasanaethau yn y naill iaith neu'r llall

Y Cyd-destyn Marchnata

Er mwyn annog cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau Cymraeg, defnydd o'n tudalennau gwe Cymraeg ac ati, bydd angen i ni roi ystod o newidiadau ar waith i annog newid ymddygiad, gan gynnwys:

- defnyddio iaith a therminoleg sy'n glir, heb unrhyw jargon ac yn hygyrch
- bod yn rhagweithiol yn cynnig y cyfle i ddefnyddio a chyrchu gwasanaethau Cymraeg a sicrhau eu bod ar gael yn gyson
- sicrhau nad Saesneg yw'r opsiwn 'diofyn' bob amser er mwyn annog defnyddwyr i beidio â throi at yr 'arfer' oddi ar-lein ac ar-lein
- sicrhau, cyhyd â phosibl, nad opsiwn 'optio i mewn' yw'r Gymraeg
- sicrhau bod ein gwybodaeth Gymraeg mor amserol a chyfoes â'r hyn sydd ar gael yn Saesneg
- cyfeirio'n glir at ein gwasanaethau a'n deunyddiau Cymraeg

Gweithredu

Bydd y cynllun yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio a gweithredu gweithgareddau gwasanaeth, ymgyrchu a phrosiectau. Bydd Grwp Tasg Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn fonitro cynnyd yn erbyn cyflawni'r argymhellion hyn yn rheolaidd. Bydd rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o oblygiadau'r Cynllun ac yn eu deall. Cyfarwyddwr SNAP Cymru fydd â'r prif gyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun a dylid adnabod pencampwr o blith aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gyda'r swyddogaeth o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad.

- Caiff cynnyd yn erbyn gweithrediad y Cynllun Gweithredu ategol ei fonitro gan dîm rheoli SNAP Cymru
- Bydd gwasanaethau SNAP Cymru yn cofnodi canran y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a/neu ymholiadau a wneir yn Gymraeg
- Bydd staff sy'n llunio ac yn gweithredu polisiâu, mentrau a gwasanaethau newydd yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ogystal â'r gofynion cytundebol a roddir ar unrhyw sefydliadau partner.
- Dylid ymgymryd ag arolwg pob tair blynedd o sgiliau ieithyddol staff er mwyn olrhain cynnyd mewn sefydlu gweithlu dwyieithog yn seiliedig ar y waelodlin a sefydlwyd trwy arolwg 2010
- Bydd materion sydd a wnelont â'r Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw yng ngweithdrefnau anwytho a hyfforddi'r sefydliad. Dylai hyn gynnwys hyfforddi staff er mwyn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
- Bydd SNAP Cymru yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn ymgynghoriad â swyddogion Comisiynydd y Gymraeg.

- Bydd SNAP Cymru yn mesur gweithrediad y Cynllun yn unol â'r cynllun gweithredu a'r amserlenni cysylltiedig
- Parhau i sicrhau bod ein gwefan yn gwbl ddwyieithog, gyda'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac yn chwilio am ffyrdd newydd i sicrhau bod rhwydweithio cymdeithasol yn ddwyieithog.

Darparu gwasanaethau

Nod SNAP Cymru yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru byddwn yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr o'r un safon yn y Gymraeg â'r Saesneg drwy:

- sicrhau bod yr holl staff/gwirfoddolwyr yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau Cymraeg
- sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol pa staff/ gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg
- darparu hyfforddiant a chanllawiau i staff/gwirfoddolwyr er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun
- dod o hyd i wasanaethau cyfieithu dibynadwy a phroffesiynol o safon uchel er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n gyflym ac yn ddibynadwy

Ymhlith y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan SNAP Cymru mae'r canlynol:

- Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth
- Gwasanaeth Plant a Theuluoedd
- Eiriolaeth Annibunnol i Blant a Phobl Ifanc
- Gwasanaeth Datrys Anghydfodau
- Llinell Gymorth
- Hyfforddiant
- Lleoliadau gwaith
- Cyfleoedd Gwirfoddoli

Cynllun cynnydd

Mae'r cynllun yn cynnwys ymatebion SNAP Cymru i'r holiadur hunanasesu (a gwblhawyd ym mis Mai 2016 a'i ddiweddarau ym mis Mai 2019) a syniad o lefel ein darpariaeth bresennol ym mhob maes - o 1 i 3. Rydym wedi gosod targedau er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr amrywiol feysydd yn dilyn cyngor gan dîm Comisiynydd y Gymraeg

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
2.Cyfathrebu allanol				
2.1. Wyneb i wyneb Mae modd i ymwelwyr siarad gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg os ydynt yn gofyn am hynny		Sicrhau bod gweithdrefnau cyfredol yn fwy cadarn, a bod staff yn gwybod sut i ymateb i geisiadau o'r fath. Sicrhau, drwy hyfforddi a recriwtio, bod siaradwr	Uwch Dîm Arwain Uwch Dîm Arwain	Cyfredrol dyddiad adolygu Rhagfyr 2022

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Cymraeg ar gael ym mhob Swyddfa.		
2.2. Danfon llythyrau ac e-bost Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar adegau e.e. ar gyfer ymgyrchoedd marchnata penodol, neu i rannu gwybodaeth â chynulleidfa darged.	②	Nodi ymgyrchoedd a phrosiectau penodol ar gyfer gohebiaeth ddwyieithog. Sicrhau y cyfathrebir yn yr iaith a ffafrir bob amser.	Holl Staff Uwch Dîm Arwain	Cyfredrol dyddiad adolygu 2022
2.3. Ymateb i lythyrau ac e-bost Byddwn yn ymateb yn y Gymraeg i unrhyw ohebiaeth y derbyniwn yn y Gymraeg ond gall hyn	②	Gwerthuso ein gweithdrefnau cyfredol er mwyn lleihau oedi cyn belled ag y bo modd.	Uwch Dîm Arwain	Cyfredrol dyddiad adolygu Rhagfyr 2022

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
arwain at oedi os oes rhaid i ni ddefnyddio cyfieithydd proffesiynol.		Gosod yr un targedau ar gyfer ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Uwch Dîm Arwain	
2.4. Datganiadau i'r wasg Mae ein datganiadau'n cael eu danfon yn ddwyieithog gan amlaf ond mewn rhai achosion pan fo angen danfon datganiad ar frys mae'n bosib y byddwn yn ei ddanfon yn Saesneg yn gyntaf gyda'r Gymraeg i ddilyn	②	Sefydlu cysylltiadau â chyhoeddiadau a gwefannau Cymraeg. Sicrhau bod pob datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
2.5. Dros y ffôn Mae pob swyddog yn cynnig cyfarchiad dwyieithog. Mae trefniant mewn lle er mwyn sicrhau os nad yw'r swyddog yn gallu siarad Cymraeg, byddant yn trosglwyddo galwadau at swyddog sy'n gallu.	②	Cyfnerthu gweithdrefnau cyfredol drwy hyfforddi staff.	Uned Hyfforddi a Wybodaeth	Cyfredrol dyddiad adolygu 2022
3. Delwedd gorfforaethol a brandio				

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
3.1. Delwedd gorfforaethol a brand Mae ein delwedd yn gwbl ddwyieithog gan gynnwys unrhyw is benawdau gan drin y ddwy iaith yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	Uwch Dîm Arwain	Cyfredrol dyddiad adolygu Ebrill 2022
4. Cyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd		Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
4.1. Cyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd Mae pob cyhoeddiad allanol a deunydd cyhoeddusrwydd yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog ac mae rhai cyhoeddiadau mewnol ar gael yn ddwyieithog.	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		Cyfredrol dyddiad adolygu Ebrill 2022
4.2. Nodwch os yw'r nwyddau isod ar gael yn:				

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
Cardiau busnes Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus
Papur pennawd Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		cytundebau lefel gwasanaeth.		
Pop ups Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
Baneri hysbysebu Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus
Troednodyn e-bost Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn	UDA	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		cytundebau lefel gwasanaeth.		
Deunydd marchnata Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
Ffurflenni cofrestru Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus
Canllawiau a llyfrynnau Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn	UDA	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		cytundebau lefel gwasanaeth.		
Arwyddion Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
Pecynnu Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal		Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus
Bwydlenni Ddim yn berthnasol				

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
5. Gwefan a chyfryngau cymdeithasol				
5.1. Gwefan Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog gyda'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu diweddarau'n gyson. Mae modd trosglwyddo o'r Gymraeg i'r Saesneg ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm dewis iaith.	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	UDA	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
5.2. Cyfryngau Cymdeithasol Mae negeseuon yn cael eu postio yn iaith y swyddog felly mae postiadau yn y Gymraeg yn digwydd ar hap.	①	Annog aelodau o staff i gyhoeddi negeseuon yn ddwyieithog.	Adran Hyfforddi	dyddiad wedi'i adolygu 2022
6. Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus				
6.1. Dewis iaith mynychwyr Ydyn, ac yn nodi bod croeso iddynt gyfrannu i drafodaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu	Adran Hyfforddi a gwybodaeth	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		
6.2. Rhaglen y digwyddiad Sicrhau fod presenoldeb amlwg i'r Gymraeg trwy drefnu bod rhai cyfranwyr a gweithdai ar gael yn y Gymraeg a bod y cadeirydd yn siarad Cymraeg.	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	Adran Hyfforddi	cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
6.3. Pan fyddwch yn trefnu digwyddiad sydd ar agor i'r cyhoedd pa ddatganiadau isod sy'n gweddu orau i'ch sefydliad?				cyflawnwyd a pharhaus
Gwahoddiadau neu ddeunydd marchnata Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
Ffurflenni e.e. cofrestru, adborth neu archebu Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus
Cyhoeddiadau sain Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		cytundebau lefel gwasanaeth.		
Areithiau/ anerchiadau Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
Arwyddion Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus
Pecyn mynychwyr Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		cytundebau lefel gwasanaeth.		
Arddangosfeydd Dwyieithog - Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal	③	Cynnal arferion da presennol, ac ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.		cyflawnwyd a pharhaus

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
7. Gwasanaethu, mentrau ac ymgyrchoedd newydd				cyflawnwyd a pharhaus
7.1. Gwasanaethau, ymgyrchoedd a pholisïau newydd Wrth gynllunio prosiectau newydd bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r Gymraeg ond nid oes gennym drefn penodol ar gyfer gwneud. Gall fod yn ddibynnol ar brofiad neu wybodaeth staff, neu ofynion penodol y prosiect.	②	Parhau i gynnwys yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth wrth asesu effaith gweithdrefnau a pholisïau. Sefydlu gweithdrefnau i sicrhau y caiff gofynion iaith Gymraeg prosiectau newydd eu hystyried bob amser.	Grŵp Tasg Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Parhaol Pob prosiect newydd yn cael ei ystyried

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
7.2. Cynnig gwasanaethau Rydym yn hysbysebu bod gwasanaethau Cymraeg ar gael	③			cyflawnwyd a pharhaus
7.3. Darparu gwasanaethau Gallwn ddarparu gwasanaeth Cymraeg y rhan fwyaf o'r amser ond efallai bydd angen gwneud trefniadau ymlaen llaw.	②	Cyrraedd yr un targedau ar gyfer ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Datblygu capasiti iaith Gymraeg y gweithlu drwy hyfforddi a recriwtio.		cyfredol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
7.4. Llinellau cymorth Ydyn				
7.5. Pa un o'r datganiadau isod sy'n disgrifio eich darpariaeth chi? Mae ein llinell gymorth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond trwy rifau ffôn gwahanol, ni fydd y Gymraeg ar gael ar bob adeg a ni allwn warantu bod siaradwr Cymraeg ar gael bob tro. Byddwn yn marchnata'r llinell cymorth fel		Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo unigolion sydd angen gwasanaeth iaith Gymraeg i staff priodol. Gosod yr un targedau ar gyfer ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Adran Hyfforddi a Gwybodaeth Uwch Dîm Arwain	Dyddiad adolygu 2022

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
gwasanaeth dwyieithog sydd ar gael ar rai oriau o'r dydd.		Datblygu capasiti iaith Gymraeg y gweithlu drwy hyfforddi a recriwtio.	Adran hyfforddi a gwybodaeth	
7.6. Iaith Gwaith Mae gan ein swyddogion sy'n siarad Cymraeg droednodyn ebost sy'n nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg	③	Gwerthuso pa mor briodol yw adnoddau Iaith Gwaith (Working Welsh) a'u hymgorffori mewn arferion gwaith.	Grŵp Tasg Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Dyddiad adolygu Ebrill 2022

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
8. Staff a gwirfoddolwyr				
8.1. Recriwtio staff Rydym yn asesu os yw'r Gymraeg yn sgil sydd ei angen ar gyfer bob swydd newydd	②	Targedu a recriwtio siaradwyr Cymraeg, hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac ar wefannau Cymraeg.	Grŵp Tasg Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Dyddiad adolygu 2022
8.2. Hysbysebu swyddi gwag Rydym yn hysbysebu swyddi yn ddwyieithog	②	Hysbysebu swyddi mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac ar wefannau Cymraeg.	Uwch Dîm Arwain	Dyddiad adolygu Hydref 2022

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
8.3. Ymwybyddiaeth iaith Mae swyddogion sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	②	Parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch yr iaith Gymraeg i bob aelod o staff. Ymgorffori elfennau o'r cynllun hyrwyddo hwn yn yr hyfforddiant.	Swddog Arweiniol Iaith Gymraeg Swddog Arweiniol Iaith Gymraeg	Cyfrerdol Cyfredol
8.4. Sgiliau iaith Rydym yn diweddarau ein bas-data o sgiliau iaith swyddogion yn ôl eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn flynyddol	③	Parhau i asesu sgiliau'n ffurfiol bob dwy flynedd. Trafod mewn gwerthusiadau yn ystod y flwyddyn yn y canol.	Swddog Arweiniol Iaith Gymraeg Uwch Dîm Arwain	Dyddiad adolygu Ebrill 2022

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		Diweddarau'r gronfa ddata wrth i aelodau newydd o staff lenwi holiadur fel rhan o'r broses gynefino ar ôl cael eu penodi.	Uned Hyfforddi a Gwybodaeth	
8.5. Dysgu a defnyddio'r Gymraeg Rydym yn ymdrechu i greu awyrgylch yn y gweithle sy'n annog swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. trwy gynnal digwyddiadau i hybu'r Gymraeg.	②	Parhau i annog staff i gyflawni hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg, a gwneud hynny drwy gyfrwng sesiynau cynefino, goruchwyllo a gwerthuso. Ymdrechu i sicrhau bod rhoddwyr arian yn	Uned Hyfforddi a Wybodaeth	Cyfredrol

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel y darpariaeth hon	Amcanion er mwyn bwrw ymlaen i'r lefel nesaf neu er mwyn cynnal eich darpariaeth	Pwy fydd yn gyfrifol?	Erbyn pryd?
		adnabod y goblygiadau o ran costau ac yn eu hymgorffori mewn cytundebau lefel gwasanaeth.	Uwch Dîm Arwain	

Cwynion ac Adborth

Bydd trefn gwyno bresennol SNAP Cymru yn cynnwys ac yn monitro unrhyw gwynion a wneir mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun neu'r gwasanaeth Cymraeg. Cyfeiriwch unrhyw cwyn at:

- Ffon – 02920 348990
- Yn ysgrifenedig – Amanda Daniels, SNAP Prif Swyddfa, 10 Coopers Yard, Caerdydd CF10 5NB
- E-bost i – ymholiadau@snapcymru.org

Mae adrodd ar gwynion cwsmeriaid yn rhan o'n dull monitro chwarterol.

Mae SNAP Cymru yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd o ran gwella'i Gynllun a'i wasanaeth Cymraeg. Dylai unrhyw awgrymiadau gael eu hanfon ymholiadau@snapcymru.org Os methwn â darparu gwasanaeth Cymraeg, neu os bydd unrhyw un yn anfodlon ar safon y gwasanaeth Cymraeg a ddarparwn, cânt gwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Hysbysebu'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd SNAP Cymru yn hysbysebu ei gynllun hybu'r Gymraeg i'r cyhoedd, staff, gwirfoddolwyr, aelodau a phartneriaid yn barhaus. Byddwn yn sicrhau bod y rhai rydym yn delio â hwy yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys.

- Bydd copïau o'r Cynllun ar gael yn ein holl swyddfeydd ar ffurf dogfen ddwyieithog am ddim.
- Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau i staff
- Byddwn yn sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i cyhoedd yn gyffredinol drwy ei roi ar ein gwefan a'i gyhoeddi yn ôl y gofyn
- Byddwn yn hwyluso gweithdai a chyflwyniadau ar gyfer cleientiaid an rhanddeiliaid yn ôl yr angen